



Annwyl riant / warcheidwad,

Ar eich marciau... rydym yn cymryd rhan yn Big Pedal 2014, digwyddiad beicio a sgwtera i'r ysgol sy'n annog plant, staff a rhieni i ddewis dwy olwyn ar gyfer eu taith i'r ysgol!

Caiff y digwyddiad ei drefnu gan Sustrans (sustrans.org.uk), ei ariannu gan y Bike Hub (bikehub.co.uk), a bydd yn digwydd rhwng y 10fed a 14eg o Fawrth.

Pam ein bod wedi cofrestru.

Rydym yn credu ei bod yn ffordd ardderchog i gael rhagor o'n disgyblion i fynd ar eu beiciau a'u sgwteri a chael hwyl wrth gyrraedd yr ysgol yn ddiogel. Bydd hefyd yn grêt i gymryd rhan er mwyn dod yn un o brif ysgolion y DU am deithiau ar ddwy olwyn, heb sôn am gyfle i ennill gwobrau bendigedig. Rydym hefyd yn meddwl y byddwch yn mwynhau llai o brysurdeb y tu allan i gatiau ein hysgol!

Archarwyr yn codi arian!

Ar Ddydd Gwener y 14eg o Fawrth hoffem rhoi y cynnig i'n disgyblion gymryd rhan yn Niwrnod Archarwyr Sustrans drwy wisgo fel Archarwyr os y dymunant. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bob plentyn fod yn rhan o'r Big Pedal, hyd yn oed os nad ydynt yn sgwtera neu'n beicio. Cofiwch - os bydd eich plant yn dewis gwisgo fel Archarwyr a dod i'r Ysgol ar eu beiciau neu sgwteri - sicrhewch eu bod yn gwneud hynny yn ddiogel!

Am rhagor o wybodaeth am y digwyddiad a manylion am y gwobrau, ewch i www.bigpedal.org.uk.

Mwynhewch y daith!

Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Ffitrwydd.



Dear parent / guardian,

Get set... we're taking part in the Big Pedal 2014, a giant inter-school cycling and scooting event encouraging children, staff and parents to choose two wheels for their daily commute!

The event is organised by Sustrans (sustrans.org.uk), funded by the Bike Hub (bikehub.co.uk), and it's happening from 10 to 14 March.

Why we've signed up.

We think it's a fantastic way to get more of our pupils on their bikes and scooters and have fun getting to school, safely. And it'll be great to take part and become one of the UK's top schools for two-wheeled journeys, not to mention our chance to win some brilliant prizes. We also think you'll enjoy less congestion outside our school gates!

Fundraising superheroes!

On Friday 14 March we'd like to give our pupils the option to be involved in Sustrans' Superhero Day by dressing as Superheroes if they wish to do so. This gives every child the chance to be involved in the Big Pedal even if they don't scoot or cycle. Remember - if your child chooses to dress as a Superhero and scoot or cycle to School - please ensure they do so safely.

For more information about the event and details of prizes, go to www.bigpedal.org.uk.

Enjoy the ride!

Members of the Health and Fitness Committee.